Archwilydd
Achosion
Annibynnol

Ffioedd Proffesiynol

Weithiau, gofynnir i'r Archwilydd Achosion Annibynnol (ICE) ystyried ad-dalu ffioedd a godir gan gyfreithwyr, cyfrifwyr neu ymgynghorwyr eraill am eu gwasanaethau proffesiynol am gynorthwyo unigolion i ddatblygu eu cwyn.

Mae'r Archwilydd Achosion Annibynnol o'r farn na ddylai fod angen help proffesiynol ar achwynyddion er mwyn datblygu cwyn, ac mae'n disgwyl i'r rhai hynny sy'n dewis gwneud hynny dalu'r gost eu hunain. Fodd bynnag, mewn achos eithriadol, pan gall unigolyn ddangos yn glir nad yw wedi datblygu cwyn heb help, neu wedi methu â chael help a chyngor am ddim, mae'n bosibl y bydd yr Archwilydd Achosion Annibynnol yn argymell y dylai'r Asiantaeth neu'r Busnes dan sylw ad-dalu'r ffioedd proffesiynol, os bydd ei ymchwiliad yn canfod bod yr Asiantaeth neu'r Busnes wedi camweinyddu.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
INVESTOR IN PEOPLE

Er mwyn llywio ei ystyriaethau, bydd angen y wybodaeth ganlynol ar yr Archwilydd Achosion Annibynnol:

- Pam roedd angen i chi ddefnyddio unigolyn proffesiynol a oedd yn codi ffi - gyda beth roeddech angen help a sut y gwnaeth helpu? Pam nad oeddech yn gallu datblygu'r gŵyn eich hun?
- A wnaethoch geisio cael gwasanaeth proffesiynol nad oedd yn codi ffi, fel Cyngor Ar Bopeth ac, os felly, pam eich bod wedi penderfynu defnyddio gwasanaeth a oedd yn codi ffi ar ôl hynny.
- Beth oedd y costau - bydd angen i chi ddarparu anfoneb fanwl yn nodi'r holl gostau a bydd angen i ni weld copi o'r dderbynneb, os ydych wedi talu'r bil.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, ac mae'n bosibl y bydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth fanylach fel yr angen. Dim ond ar ôl derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno y bydd yr archwilydd achosion Annibynnol yn ystyried ad-dalu ffioedd.